Polisi Dwyieithrwydd Prifysgol Cymru

Manylion Statws y Ddogfen

Statws	Terfynol
Hanes Fersiwn	2
Dosbarthiad	Di-ddosbarth
I'w gyhoeddi dan Ryddid Gwybodaeth	Ydy
Dyddiad diwygio a chymeradwyo	17 Tachwedd 2015
Awdur	Cyllid ac Adnoddau
Dyddiad gweithredu	Mehefin 1996
Dyddiad adolygu	Tachwedd 2018

1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru ('PC' neu 'y Brifysgol') yn falch o'i hanes a'r rhan flaenllaw mae wedi'i chwarae yn datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Mabwysiadwyd y fersiwn hwn o Bolisi Iaith PC ar 17 Tachwedd 2015 ac mae'n egluro polisi'r Brifysgol ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at uno gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2017/18.

2. Datganiad Polisi

2.1 Mae PC wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal ac y bydd y Brifysgol yn:

a) Cydnabod hawliau siaradwyr Cymraeg i gyfathrebu gyda'r Brifysgol yn yr iaith maen nhw'n ei dewis (sy'n gyson ag ymrwymiad cyffredinol y Brifysgol i fod yn deg, yn uchelgeisiol, canolbwyntio ar y cwsmer ac yn effeithlon).
b) Sicrhau bod cyfleoedd digonol i bobl a sefydliadau gyfathrebu gyda'r Brifysgol yn Gymraeg.
c) Ceisio gwella'r gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei busnes dydd i ddydd.
d) Diogelu gwasanaethau traddodiadol y Brifysgol sydd wedi datblygu a hybu defnydd o'r Gymraeg dros sawl degawd.

2.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod:

a) Bod y rheini y mae angen iddynt gyfathrebu â PC yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith.
b) Bod galluogi defnyddio'r Gymraeg fel dewis iaith yn fater o ofal cwsmer da ac nid yn gyfaddawd.
c) Y gallai gwrthod yr hawl i unigolion a sefydliadau ddefnyddio eu dewis iaith olygu eu bod dan anfantais

2.3 I sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel i'r rheini sy'n dymuno cyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg, bydd PC yn ceisio:

a) Hybu cydraddoldeb a thrin pawb yn deg ac â pharch
b) Darparu dewis ynghylch sut i gysylltu â PC
c) Bod yn gyfeillgar, yn hygyrch ac yn broffesiynol
d) Creu awyrgylch croesawgar yn ei hadeiladau cyhoeddus
e) Ateb ymholiadau yn yr iaith a ffefrir ar y pwynt cyswllt cyntaf
f) Darparu gwybodaeth uniongyrchol am ei gwasanaethau
g) Ymdrin ag ymholiadau a chwynion yn ofalus, yn gyflym ac yn agored
h) Datblygu a chynorthwyo staff PC i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

3. Amcanion

3.1 Mae amcanion strategol y Brifysgol yn cynnwys diwallu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Caiff hyn ei gyflawni (mewn modd sy'n briodol i amgylchiadau'r Brifysgol cyn uno) drwy:

a) Ystyried nodau'r Cynllun Iaith Gymraeg wrth gynllunio a rhoi unrhyw bolisïau a gwasanaethau PC ar waith

b) Cefnogi hawl unigolyn neu sefydliad i gyfathrebu neu ddelio â PC yn Gymraeg fel yr iaith maen nhw'n ei ffafrio
c) Annog, hybu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg yn PC
d) Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

3.2: Bydd y Brifysgol yn datblygu ac yn monitro targedau i oruchwylio perfformiad a sicrhau bod PC yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, gyda'r ddwy iaith yn mwynhau'r un statws a dilysrwydd.

3.3: Bydd y Brifysgol yn helpu i gefnogi'r iaith Gymraeg drwy:

a) Hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg PC, sy'n datgan sut y bydd y Brifysgol yn gweithio yn Gymraeg a Saesneg i gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
b) Datblygu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg PC, fydd yn egluro sut fydd y Brifysgol yn sicrhau bod ganddi weithlu dwyieithog ac adnoddau digonol i gyflawni nodau Cynllun Iaith Gymraeg PC.

4. Camwahaniaethu

Polisi'r Brifysgol yw peidio â chamwahaniaethu yn erbyn unrhyw bersonau ar sail oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol.

5. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Nod y Polisi hwn yw cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y sefydliad o ran ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith, yr effaith ar ddelwedd gyhoeddus y sefydliad a rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith.

6. Amserlenni Gweithredu

Dylid cymhwyso polisïau a gweithdrefnau newydd ar unwaith yn dilyn mabwysiadu'n ffurfiol a'u cyfleu i holl aelodau'r staff.

7. Arweiniad

Gellir anfon ceisiadau am arweiniad ar unrhyw agwedd o'r polisi hwn at Reolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol: compliance@cymru.ac.uk